



PROTOCOL LLAU PEN

Cyffredinol

Nid problem i ysgolion yn bennaf yw heintiad llau pen ond i'r gymuned ehangach. Ni all yr ysgol ei ddatrys, ond gall yr ysgol helpu'r gymuned leol i ddelio â'r heintiad.

Yr unig ffordd o drosglwyddo llau pen yw drwy gyswllt pen wrth ben uniongyrchol a hynny am gyfnod hir.

Mae trosglwyddo llau yn yr ystafell ddosbarth yn gymharol brin. Pan fo'n digwydd, fel arfer mae'n digwydd rhwng "ffrindiau gorau."

Ni fyddwn yn gallu cael gwared ar lau pen yn y dyfodol agos, ond drwy ymdrin â'r mater yn synhwyrol a deallus, ar sail ffaieth nid myth, bydd hyn yn help i gyfyngu'r broblem.

Yn aml mae rhieni a staff yn *tybio*, fodd bynnag, fod achos difrifol yn yr ysgol, a llawer o'r plant wedi'u heintio. Prin iawn yw sefyllfa o'r fath.

Yn aml, achos o fraw a dychryn sydd yma, nid o heintiad llau pen: problem gymdeithasol yn hytrach na phroblem iechyd cyhoeddus.

Canllawiau gweithredu

Bydd y staff yn hysbysu'r pennaeth os ydynt yn credu fod gan blentyn lau pen. Ni fydd unrhyw aelod o staff yn 'archwilio' pen plentyn.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ein nyrs ysgol yn gwybod yn gyfrinachol am achosion o heintiad llau pen. Bydd y nyrs ysgol yn asesu'r adroddiad unigol ac efallai'n penderfynu cysylltu'n gyfrinachol â'r rhieni i gynnig gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth.

Byddwn yn cadw adroddiadau unigol yn gyfrinachol ac yn annog ein staff i wneud yr un fath.

Byddwn yn cydweithio gyda'r nyrs ysgol i ddarparu gwybodaeth addysgol i rieni a phlant am lau pen. Byddwn yn anfon gwybodaeth yn rheolaidd, gorau oll fel rhan o becyn yn delio â materion eraill.

Byddwn yn gofyn i'r nyrs ysgol drefnu sgwrs i rieni yn yr ysgol os ydyn nhw'n bryderus yn flynyddol.

Byddwn yn gwneud yn siŵr, efo'r nyrs ysgol, bod y rhieni'n cael gwybodaeth ddibynadwy, reolaidd. Dylai'r wybodaeth gynnwys cyfarwyddiadau ar ddarganfod drwy gribo a chael diagnosis iawn, osgoi triniaethau diangen neu anaddas, a sicrhau triniaeth drwyadl ac addas o heintiadau sydd wedi'u cadarnhau'n bendant ac o'r unigolion eraill sydd wedi bod mewn cysylltiad, drwy ddefnyddio trwyth cemegol.

Byddwn yn cynghori rhieni pryderus i ofyn am gyngor proffesiynol y nyrs ysgol, meddygfa'r teulu neu'r fferylllydd lleol.

Ni fyddwn yn eithrio plant â llau pen, neu blant y tybir bod ganddynt lau pen.

Arwyddwyd: _____ (Cadeirydd y Llywodraethwyr) Dyddiad: _____